**YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR**
*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*
Mewn undod mae nerth /Stronger together

13.03.23

Annwyl Rieni/Gofalwyr

**Dyddiadau i'ch dyddiaduron**

- Cynhelir nosweithiau rhieni ar 6&7/3/23 a 13&14/3/23. Cliciwch ar y ddolen isod i archebu slot amser gyda'ch athro dosbarth. Bydd y cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn yr ysgol. Os ydych angen cyfarfod TEAMS cysylltwch â swyddfa'r ysgol. https://outlook.office365.com/owa/calendar/YsgolGGBrynyMor@hwbwave15.onmicrosoft.com/bookings/s/k4HLJ4IMzEm1AlF61UZV9g2
- Prynhawniau dathlu gwaith – 6ed/7fed o Fawrth – Gweler y llythyr diweddar a anfonwyd atoch.
- HMS 17.2.23
- Hanner tymor – 20 – 24 Chwefror
- Mawrth 1af – Dydd Gŵyl Dewi a lluniau ysgol
- Mawrth 3ydd – Eisteddfod Ysgol
- Dathliad Diwrnod y Llyfr - Mawrth 17eg
- Gwyliau'r Pasg 1-14eg Ebrill

Gellir dod o hyd i bob llythyr ar wefan yr ysgol. https://www.yggbrynymor.co.uk/llythyron-letters/

**Lles Teuluoedd a Disgyblion**

Mae gan ein tîm lles ychwanegiad. Mae Mrs Cerri Elimelech bellach wedi cymryd rôl Swyddog Cyswllt Teuluol. Bydd hi ar gael i helpu i gefnogi teuluoedd. Bydd hefyd yn gweithio gyda theuluoedd a'r Swyddog Lles Addysg i fynd i'r afael ag unrhyw faterion presenoldeb neu hwyrni cyson. Bydd Mrs Maggie Bassett yn parhau i gefnogi lles disgyblion o fewn yr ysgol. Roeddwn yn falch o weld y gefnogaeth a roddwyd gan rieni i'r gweithdy diweddar a ddarparwyd i ddatblygu dealltwriaeth rhieni o gefnogi rheoleiddio emosiynol eu plant (a ddarparwyd gan CAMHS&GIG). Peidiwch ag anghofio mynychu ein bore coffi rhieni ar 15/02/23. Bydd yn gyfle i chi gwrdd â rhieni eraill ac i ddarganfod pa wasanaethau y mae'r Hwb Cymorth Cynnar yn eu cynnig i deuluoedd. 10.00yb – 11.00yb.

Mae gwybodaeth a dolenni i wefannau a all eich helpu chi fel teulu ar wefan ein hysgol Lles a chefnogaeth teulu

Ar ôl y Pasg hoffwn greu fforwm rhieni. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i 1 rhiant weithredu fel cynrychiolydd dosbarth i gwrdd ag aelodau'r uwch dîm arwain / tîm lles / asiantaethau allanol tua unwaith y tymor. Bydd y fforwm yn fodd i gryfhau'r berthynas rhwng yr ysgol a theuluoedd ac adnabod anghenion cymuned yr ysgol. Os teimlwch yr hoffech gynrychioli dosbarth eich plentyn –

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

cysylltwch â swyddfa'r ysgol.

**Gwybodaeth**
Cliciwch ar y ddolen i ddod o hyd i adroddiad y corff llywodraethu i rieni 2021-2022 ar wefan yr ysgol.

Bydd cinio ysgol am ddim nawr yn cael ei gynnig i bob disgybl ym **mlwyddyn 1 ar ôl hanner tymor (20/2/23).**

**Codi arian i brynu llyfrau**
Mae'r llyfrau yn ein llyfrgell a'n dosbarthiadau wedi mynd yn hen ac wedi dyddio erbyn hyn. Yn ystod y flwyddyn hon rydym am wella a diweddaru ein llyfrau ar draws yr ysgol yn ogystal ag ailwampio ystafell lyfrgell yr ysgol. Rydym am i bob disgybl ddatblygu cariad at lenyddiaeth. Os ydych yn gwybod am unrhyw fusnes neu gwmni a fyddai â diddordeb mewn cefnogi'r ysgol drwy grantiau cymunedol neu wneud unrhyw roddion cysylltwch â swyddfa'r ysgol.

**Ceisiadau Gwyliau**
Mae ceisiadau am wyliau awdurdodedig yn cael eu gadael i ddisgresiwn y pennaeth. Gan fod ein presenoldeb ysgol gyfan ar hyn o bryd yn is na'n targed ni fyddaf yn awdurdodi unrhyw ddisgybl i fod yn absennol ar wyliau os yw absenoldeb eich plentyn yn llai na 95% ar gyfer y flwyddyn academaidd hon (oni bai bod amgylchiadau eithriadol). Mae angen cyflwyno pob cais pythefnos cyn yr amser gwyliau. Bydd unrhyw geisiadau a ddaw i mewn ar ôl hyn yn anawdurdodedig.

Yn dilyn cyfnod o ychydig flynyddoedd aflonyddgar gyda covid a salwch eraill**, teimlaf y dylai rhieni feddwl yn ofalus cyn mynd â'u plant ar wyliau yn ystod y tymor.**

**Gweithredu streic**
Byddwn yn eich diweddaru ar unrhyw streicio pellach cyn gynted â phosibl. Mae'r streic ar gyfer 14/3/2023 wedi'i gohirio a bydd yr ysgol ar agor i bawb fel arfer.

**Gweithgareddau dosbarth**
Cofiwch gadw llygad ar weithgareddau dosbarth eich plentyn ar dudalennau'r dosbarth neu ar twitter. Mae'n wych gweld yr holl ddysgu arbennig sy'n digwydd yn yr ysgol, yn seiliedig ar ddysgu sydd wedi'i nodi yn y cwricwlwm newydd. Peidiwch ag anghofio, byddwch yn gallu cael sgwrs a thrafodaeth dda gyda'ch plant yn ystod y dathliad o brynhawniau gwaith.

Nodyn caredig i'ch atgoffa na chaniateir cŵn/anifeiliaid anwes ar fuarth yr ysgol.

# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together


Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus a mwynhewch eich hanner tymor.

Yn gywir,

E. Wakeham

Elin Wakeham


**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**

**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**

**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**

**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**

**Ffôn/ Tel: 01792 466354**